PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU OEDOLION A CHYMUNEDOL

DYDD MERCHER, 4 HYDREF 2017

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd McGarry(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Ahmed, Asghar Ali, Carter, Goddard, Jenkins, Kelloway a/ac Lent |

17 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriad am absenoldeb.

18 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

19 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion cyfarfod Pwyllgor Craffu'r Gwasanaethau Cymunedol ac Oedolion a gynhaliwyd ar 6 Medi 2017 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

20 : CYNNIG I DDATBLYGU UNED HYFFORDDI GOFAL CYMDEITHASOL RHANBARTHOL AR GYFER CAERDYDD A BRO MORGANNWG - EITEM CRAFFU CYN PENDERFYNIAD

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Susan Elsmore, yr Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd, Tony Young, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ac Angela Bourge, Rheolwr Gweithredol, Perfformiad Strategol ac Adnoddau i'r cyfarfod.

Gwahoddodd y Cadeirydd y Cynghorydd Elsmore i wneud datganiad a dywedodd fod hyn yn rhan o'r jig-so mewn perthynas â gwaith rhanbarthol. Mae'r Cynghorydd Elsmore yn cadeirio'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a roedd wedi mynychu digwyddiad lansio'r Cynllun Strategol ar gyfer 2017-2022; roedd ychwanegu hyn yn faes allweddol wrth fynd ymlaen, roedd yn ymwneud â defnydd gwell, mwy syml o adnoddau.

Gwahoddodd y Cadeirydd Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol i wneud datganiad a dywedodd fod hyn yn un o'r darnau hwyrach yn y jig-so gwella a'i bod yn ddarn pwysig iawn o waith; ychwanegodd fod ganddo gyfrifoldeb statudol fel Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol dros y gweithlu. Nid yw cynllun a datblygu strategol y gweithlu wedi bod yn llwyddiannus iawn yng Nghaerdydd a'r Fro yn y gorffennol; roedd pob parti bellach yn ymrwymedig iawn ac am sicrhau bod y gweithlu'n ddiogel yn y dyfodol oedd yn dasg enfawr. Roedd angen am uned gweithlu rhanbarthol, roedd hyn yn gam pwysig er mwyn sefydlu'r seilwaith y mae ei angen ar gyfer hynny, felly roedd yn newyddion da.

Rhoddodd Angela Bourge gyflwyniad i'r Aelodau ar y Cynnig i Weithredu Uned Hyfforddiant Datblygu'r Gweithlu Rhanbarthol Gofal Cymdeithasol Caerdydd a Bro Morgannwg, a roddodd wybodaeth am Alwon; Cyllid; Manteision Dull Integredig;

Lleihau Risgiau; Strwythur Gweithredol Arfaethedig; Perthynas Parhaol gydag Academi Caerdydd a'r Fframwaith Llywodraethu a Pherfformiad.

Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau:

- Gofynnodd yr Aelodau am y manteisio i Gaerdydd, gan nodi mai traean o'i maint yw'r Fro; credodd yr Aelodau nad yw'r elwon ar gyfer Caerdydd mor dda, ac eithrio clod am gael yr uned, ac roedd gwneud hyn yn gyfrifoldeb mawr a byddai cymhlethdodau wrth gael rheolwyr llinell y Bwrdd Statudol wedi'u drysu gan systemau AD cymhleth. Dywedodd swyddogion y byddai'r Fro yn cael ei throsglwyddo i Gaerdydd ac yn dod yn gyflogeion Caerdydd a bod ar system DigiGov; gan ychwanegu mai bodloni anghenion y Fro fyddai'r her gan eu bod yn wahanol iawn i anghenion Caerdydd. Nodwyd bod Caerdydd eisoes yn gwneud llawer o waith rheoliadol gyda'r Fro, ac adroddiadau ar grantiau ac ati; sy'n golygu eu bod wedi dod i'r arfer o gydweithio er ei fod yn heriol. Byddai'r uned hon yn symleiddio prosesau ac osgoi ymdrechion wedi'u dyblu. Dywedodd yr Aelod Cabinet fod hyn yn alinio gyda chyfeiriad yr agenda Rhanbarthol. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr fod y ddau ohonynt yn rhannu'r un darparwyr ac agwedd gyffredin at y berthynas gyda nhw. Roedd dyletswydd gyhoeddus i wneud pethau unwaith ac yn iawn, byddai hyn yn rhesymoli arbenigedd a rhoi rheolaeth uniongyrchol dros yr adnodd a ddefnyddir i gyflenwi.

- Roedd diddordeb gan yr Aelodau i weld pa gyrsiau a fyddai'n cael eu darparu a dywedwyd wrthynt fod swyddogion yn mynd i ddarparwyr bob blwyddyn i weld yr hyn y mae ei angen a'r hyn y gofynnwyd amdano. Ar hyn o bryd, roedd y cyrsiau ar sail agweddau, cynllunio a chyrsiau ar sail canlyniadau yn ymwneud â'r Ddeddf. Amddiffyn Plant, Amddiffyn Oedolion, Diogelu, E-ddysgu ac ati oedd cyrsiau parhaol. Yn gyffredinol seilir cyrsiau ar yr hyn y mae'r farchnad yn dweud y mae ei angen.

- Gofynnodd yr Aelodau a oes unrhyw drafodaethau wedi bod ar gynnal cyrsiau ar benwythnosau. Dywedodd swyddogion fod hyn yn digwydd, cynhelir cyrsiau gyda'r nos ac ar benwythnosau ac mae rhai ar gael fel cyrsiau E-ddysgu.

- Mewn perthynas ag adborth am yr ymgynghoriad, nododd yr Aelodau, pan ymgynghorwyd â staff ym mis Gorffennaf, y cafwyd 87 o ymatebion; gofynnodd yr Aelodau faint gafodd eu hanfon yn wreiddiol. Nododd swyddogion y nifer isel o ymatebion, ymgynghorwyd â 800 o staff Caerdydd a'r Fro. Dywedodd swyddogion eu bod yn arolygu staff ar bethau eraill ac amseroedd eraill ac mae peidio â chael llawer o ymatebion yn gyffredin. O ran adborth, ychwanegodd swyddogion fod pryder y byddai Caerdydd yn llywodraethu'r uned o ganlyniad i'w maint a roedd pryderon gan nifer o staff yn Fro y byddai eu syniadau yn cael eu cyfaddawdu. Roedd anghenion y 2 awdurdod yn wahanol iawn ac mae'n rhaid cydnabod hyn; Trefniadau Llywodraethu a fyddai'n sicrhau bod Caerdydd yn cyflawni'r Fro fyddai rhan o'r cytundeb. Roedd yr adborth hwn wedi'i ddisgwyl a dywedodd swyddogion ei fod wedi'i leihau trwy gydnabod gwahaniaethau ac y byddent yn cael eu rheoli.

- Gofynnodd yr Aelodau a yw swyddogion yn fodlon bod digon o ymgynghori wedi bod gyda Staff. Dywedodd swyddogion y gellir gwneud mwy bob amser; roedd Survey Monkey wedi'i ddefnyddio ac roedd yr arolwg ymgynghori'n

hawdd ei gwblhau mewn ychydig o funudau. Aeth swyddogion hefyd i grwpiau staff a siaradon nhw â staff wyneb yn wyneb, roedd hefyd wedi bod trafodaethau tîm rheoli. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr y gwelir Hyfforddiant a Datblygu’n aml fel diddordeb lleiafrifol, roedd y Bwrdd yn trio codi’i broffil gan ei bod yn fater pwysig. Ychwanegodd yr Aelod Cabinet, ymhlith y rhai hynny a ymatebodd, fod 86% o blaid ac y dylid bod yn gadarnhaol am hyn. Yn genedlaethol, cydnabyddir bod gofal cymdeithasol yn Bwysigrwydd Strategol Cenedlaethol, roedd angen dull call o fodloni anghenion pobl yn deg.

- Trafododd yr Aelodau’r ffaith nad yw rhai pobl yn gwybod eu bod yn gallu cael help gyda gofal gan y Cyngor. Cydnabu swyddogion fod gofalwyr di-dâl yn rhan werthfawr o’r gweithlu gofal cymdeithasol, gwneir gwaith gyda sefydliadau sy’n gweithio gyda phobl i bennu anghenion, dilyn cyrsiau hyfforddiant, codi ymwybyddiaeth a chyfeirio at arweiniad a chymorth. Ychwanegodd y cyfarwyddwr y gwneir gwaith allgymorth hefyd gyda chymunedau anodd eu cyrraedd a bod hyn wedi'i dderbyn yn dda.

- Gofynnodd yr Aelodau a oes unrhyw bryderon wedi bod am adolygu cyllid Gofal Cymdeithasol; dywedodd swyddogion nad oes, nid oes llawer o newidiadau wedi bod eleni o ran sut y mae'n cael ei weinyddu; roedd yr adolygiad yn ymwneud yn fwy â gweinyddu'r cyllid yn hytrach na'r cyllid ei hun.

- Gan gyfeirio at sefydlu’r uned, gofynnodd yr Aelodau a fyddai’r gost un tro yn rhan o’r grant neu a fyddai angen cyfraniadau gan y Cyngor. Dywedodd swyddogion y byddai’r costau sefydlu cychwynnol un tro yn cael eu talu'n gyntaf trwy swyddi gwag heb eu llenwi.

- Nododd yr Aelodau fod pryderon gan yr undebau am y sefyllfa RhG2 yn cael ei chreu a gofynnon nhw a aethpwyd i’r afael â’r pryderon hyn. Dywedodd swyddogion nad oes unrhyw wrthwynebiadau wedi'u derbyn fel y cyfryw dim ond bod yr Undebau’n credu na ddylai’r Cyngor fod yn creu unrhyw swyddi Rheolwr Gweithredol ar hyn o bryd.

- Gofynnodd yr Aelodau a oes risg o golli arbenigedd ar gyfer elw ariannol wrth sefydlu’r uned gyfunol. Dywedodd swyddogion fod 2 reolwr ar hyn o bryd sy’n cyflawni rôl uwch, ac sydd â swyddi parhaol i ddychwelyd iddynt; roedd gobaith y byddai’r ddau ohonynt yn gwneud cais am y swydd.
- Gofynnodd yr Aelodau a fyddai’r gwaith o ailstrwythuro‘n arwain at golli staff. Dywedodd swyddogion na ragwelir hyn, byddai’n dechrau gyda swyddi gwag heb eu llenwi, ac na ragwelon nhw y byddai swyddi'n cael eu colli neu staff eu diswyddo.

- Cyfeiriodd yr Aelodau at yr Asesiad o Effeithiau ar Gydraddoldeb; nododd swyddogion ei fod yn weithlu benywaidd yn bennaf, felly mae unrhyw newidiadau'n cael effaith. Ni ragwelir y caiff swyddi eu colli. O ran cyflog, byddai’r swydd RhG2 yn gyfle i rywun, a byddai gan y bobl hynny sy’n cyflawni rôl uwch ar hyn o bryd eu swyddi parhaol i ddychwelyd iddynt. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr fod y gweithlu'n gyffredinol ym maes Gofal Cymdeithasol yn fwy na 80% benywaidd.

- Gofynnodd yr Aelodau am ymarferoldeb cael 2 swyddfa ac 1 rheolwr. Esboniodd swyddogion y byddai hynny ar y dechrau yn unig, maent yn gobeithio dod o hyd i leoliad addas rhwng Caerdydd a'r Fro i weddu'r ddau; ar hyn o bryd mae'r tîm yn gwneud gwaith ledled y rhanbarth o 2 ganolfan.

CYTUNWYD – bod y Cadeirydd ar ran y Pwyllgor yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet yn cyfleu arsylwadau'r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

21 : RHAGLEN WAITH PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU OEDOLION A'R GYMUNED 2017/18

Alison Jones – amlinellodd y Prif swyddog Craffu'r adroddiad i'r Aelodau. Nodwyd y cytunodd yr Aelodau ar y canlynol yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor Craffu hwn ar 6 Medi 2017:

- Byddai cyfarfodydd y Pwyllgor yn anelu at bara dim mwy na 3 awr, sy'n gyfartal â 2 eitem sylweddol ac 1 eitem lai ar gyfartaledd, fel y argymhellir gan Swyddfa Archwilio Cymru.

- Creu system o friffiau/diweddariadau/adroddiadau cynnydd, i ryddhau amser gwerthfawr y Pwyllgor, ond hefyd roi'r diweddaraf i'r Aelodau ar gynnydd yn erbyn y materion hyn. Pe bai unrhyw bryderon neu gwestiynau'n cael eu codi yna byddai'r rhain yn cael eu rhoi ar Agenda'r Pwyllgor i'w hystyried yn ffurfiol.

- Panel Perfformiad yn craffu ar adroddiadau monitro perfformiad a Thrafodaethau Dwys ar berfformiad. Bydda'r Panel yn adrodd yn ôl yn rheolaidd i'r Pwyllgor gyda'r sylwadau, eu pryderon neu eu ceisiadau am ymchwiliad pellach yng nghyfarfod y Pwyllgor llawn.

Nododd yr Aelodau yr Ymholiadau, yr Eitemau Cyn Penderfyniad, Briffiau/Cyflwyniadau; Briffiau ac eitemau Panel Perfformiad a gaiff eu rhaglennu dros y flwyddyn sy'n dod.

PENDERFYNWYD: cwblhau'r Rhaglen Waith ar gyfer 2017/18.

22 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Dyddiad cyfarfod nesaf Pwyllgor Craffu'r Gwasanaethau Cymunedol ac Oedolion ar 15 Tachwedd am 4.30pm.